Grŵp Trawsbleidiol ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
Cross Party Group on Renewable & Low Carbon Energy

CADNO COMMUNICATIONS LTD

renewableUK CYMRU

**Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

12:00 – 13:00, Dydd Mawrth 27 Mehefin 2023

Cyfarfod - Adeilad Pen y Pier

Cofnodion

## Aelodau'r Senedd

Huw Irranca-Davies MS (Cadeirydd)

Carolyn Thomas AS

Eluned Morgan AS

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Abigail Beck | Dr Mark Picton | Manon Kynaston |
| Akshay Kaul | Dr Paul Ellsmore | Math Williams |
| Aled Hughes | Elliot Smith | Mike Corney |
| Amie Rose Vernoum | Hannah Dineen | Oliver Penney |
| Andrew Donald | Hannah Jarvis | Peter McCrory |
| Andy Billcliff | Holly Skyrme | Rahel Jones |
| Andy Regan | Huw Lewis | Rebecca Williams |
| Angharad Davies | Ioan Dobbin | Robert Chapman |
| Antony Jones | Jack Wilkinson-Dix | Sara Powell-Davies |
| Ben Lewis | Jay Sheppard | Sarah Jones |
| Ben Tritton | Jennifer Pride | Sean Evans |
| Ben Williams | Jessica Hooper | Simon Morgan |
| Cathy Owens | John Wawer | Steve Brooks |
| Chris Williams | Lara Stace | Steve Edwards |
| Daniel Benson | Leslie Walker | Steve Pope |
| Daniel Taylor | Lydia Godden | Tim James |
| Daniel Wills | Maarten Abele | Tom Fabian |

## Ymddiheuriadau

Delyth Jewell AS

## Eitem agenda 1: Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd a Jessica Hooper o RenewableUK Cymru bawb a chyflwynodd y siaradwyr.

## Eitem agenda 2: Akshay Kaul

Anerchodd Akshay Kaul, Cyfarwyddwr Seilwaith a Sicrwydd Cyflenwi Ofgem, y rhai a oedd yn bresennol. Esboniodd rôl Ofgem a'i gynlluniau ar gyfer y sector ynni, gan amlinellu'r ffocws teiran ar gyfer cynllunio systemau, adeiladu'r rhwydwaith grid, a sefydlu cysylltiadau grid. Mynegodd Mr Kaul ei awydd i weithio gyda seneddwyr a diwydiant Cymru i ddatblygu cynlluniau am system ranbarthol fel y gall prosiectau gysylltu mor gyflym â phosib.

## Eitem agenda 3: Peter McCrory

Cydnabu Rheolwr Polisi Grid RenewableUK, Peter McCrory, uchelgeisiau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ond cydnabu'r buddsoddiad grid sydd ei angen i wireddu'r rhain. Amlinellodd ei bod yn anodd diystyru'r buddsoddiad grid sydd ei angen, gan gyfeirio at ganfyddiad RenewableUK bod angen i Gymru ddyblu ei chapasiti grid erbyn 2035. Croesawodd y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Grid Cenedlaethol, Ofgem, a'r llywodraeth i ddiwygio'r broses o gysylltu â'r grid. Myfyriodd Mr McCrory ar gylch gwaith estynedig Ofgem i gynnwys dyletswydd sero net.

## Eitem agenda 4: Cwestiwn ac Ateb

*C1: Beth yw'r heriau allweddol i gyrraedd targedau 2035 a beth all Ofgem ei wneud i oresgyn yr heriau hyn?*

Esboniodd Akshay Kaul fod tri maes allweddol: rheoleiddio, cynllunio a'r gadwyn gyflenwi. Dywedodd fod angen eglurder a sicrwydd ar y gadwyn gyflenwi, gyda pherthnasoedd tymor hwy wedi'u sefydlu. Dadleuodd Mr Kaul fod angen defnyddio'r gadwyn gyflenwi bresennol a'i marchnata'n fwy effeithiol.

Dywedodd Peter McCrory fod y newid yng nghylch gwaith Ofgem i gynnwys cyfrifoldeb dros gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed sero net yn sylweddol ac y byddai angen dyblu capasiti'r grid yng Nghymru er mwyn hwyluso'r prosiectau sydd ar y gweill.

*C2: Pa rôl sydd gan hyblygrwydd i'w chwarae?*

Dywedodd Akshay Kaul fod gan storio batris ran fawr i'w chwarae yn hyblygrwydd y system. Nododd hefyd mai'r "wobr fawr" yw hyblygrwydd domestig, a allai fod o fudd sylweddol os yw aelwydydd yn ymgysylltu'n briodol a bod y system yn dod yn fwy awtomataidd. Eglurodd Mr Kaul y gallai mwy o hyblygrwydd leihau faint o seilwaith a llwybrau ceblau sydd eu hangen.

*C3: A yw hydrogen yn ddewis amgen posibl?*

Pwysleisiodd Akshay Kaul mai rôl y llywodraeth yn hytrach nag Ofgem yw'r cwestiwn polisi am hydrogen. Fodd bynnag, roedd yn rhagweld system "glytwaith" yn cynnwys hydrogen a thrydan, gan nodi rôl arwyddocaol i hydrogen mewn ynni ar gyfer diwydiant.

*C4: Sut fyddech chi'n ysgrifennu maniffesto ar gyfer y llywodraeth nesaf a fyddai'n gwella'r grid yn gyflym?*

Dadleuodd Jessica Hooper dros fwy o weithio rhynglywodraethol, gan nodi'r heriau a wynebir gan Lywodraeth Cymru o ran cyllid, gwneud penderfyniadau a'r grid. Dywedodd fod angen i lywodraethau Cymru a'r DU gydweithio er mwyn darparu'r seilwaith sydd ei angen i gyrraedd targedau'n gyflym. Nododd Huw Irranca-Davies y newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu cyflwyno gan y Gweinidog dros Newid Hinsawdd, Julie James i hwyluso'r gwaith o ddarparu seilwaith.

*C5: A fydd angen cyfuno cynllunio systemau â dull ffyniant bro ac a oes angen sefydliad seilwaith i gyflawni gwelliannau grid?*

Cydnabu Akshay Kaul yr angen i gyflymu datblygiad y grid, gan nodi y gellir cyflawni rhywfaint trwy ddarparu cymhellion. Amlinellodd sut y gall Ofgem osod cymhellion clir gyda gwobrau a chosbau, ond nododd fod angen i hyn fod yn ymdrech gydweithredol gyda chefnogaeth cymunedau a'r gadwyn gyflenwi.

*C6: Sut y gall Llywodraeth Cymru weithio gydag Ofgem mewn perthynas â chynllunio rhanbarthol? Beth sydd angen ei newid i sicrhau bod gwelliannau yn dod â chydraddoldeb ac nad ydynt yn gwaethygu anghydraddoldeb?*

Amlinellodd Akshay Kaul y nod i gadw cost gyffredinol ynni yn isel ar gyfer y gymdeithas gyfan, gan nodi bod hyblygrwydd yn y system yn gwneud hyn yn haws. Mynegodd bryder y gallai'r rhai sy'n gallu darparu mwy o hyblygrwydd gael bargen well. Dywedodd Mr Kaul fod Ofgem o blaid archwilio tariff cymdeithasol, ond derbyniodd mai mater polisi yw hwn yn y pen draw. Dywedodd mai un o'r rhwystrau allweddol yw nad yw'r farchnad yn bodoli ar hyn o bryd i ganiatáu hyblygrwydd ar raddfa a bod angen "newid sylweddol" yn nhrefniadau a rheoleiddio'r farchnad. Tynnodd Akshay sylw at y ffaith bod Ofgem yn ehangu ei bresenoldeb corfforol yng Nghymru ac amlinellodd fod cydweithio â Llywodraeth Cymru wedi gwella'n aruthrol.

*C7: Sut ydyn ni'n cyfleu her a graddfa'r hyn sydd angen i ni ei gyflawni i gymunedau a sicrhau ein bod ni'n agored ac yn onest fel diwydiant?*

*Sut mae goresgyn agweddau negyddol ac ymgyrchoedd yn erbyn seilwaith?*

Pwysleisiodd Peter McCrory bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned wrth i seilwaith gael ei ddatblygu a dadleuodd ei bod yn hanfodol bod llywodraethau a'r diwydiant yn cael budd cymunedol yn iawn ac yn sicrhau bod pawb yn ymgysylltu. Rhoddodd yr enghraifft o gyflwyno brechlyn a nododd fel templed posibl ar gyfer ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus.

Pwysleisiodd Akshay Kaul hefyd fod dangos buddion diriaethol i gymunedau yn hanfodol ynghyd â chanllawiau cynllunio cryf gyda naratif cyhoeddus. Galwodd ar i wleidyddion ac arweinwyr ddod at ei gilydd i wrando ar rai â safbwyntiau cryf mewn ffordd deg.

Amlinellodd Huw Irranca-Davies yr achos dros ymgysylltu cynnar ac ystyrlon gan ddatblygwyr â phobl leol.

## Eitem agenda 5: Sylwadau Cloi

Cynigiodd Huw Irranca-Davies sylwadau cloi ac agorodd Ginio Rhwydweithio Wythnos Ynni Gwynt yn dilyn cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol.